



YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk

Wefan: www.brohyddgen.powys.sch.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.

05/01/21

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Trefniadau Dechrau'r Tymor

Yn unol â phenderfyniad Llyowdraeth Cymru ni fydd yr ysgol ar agor i ddisgyblion tahnddydd Llun 18 Ionawr. Bydd gwaith yn cael ei ddarparu ac yn cael ei uwchlwytho i **Teams** ar gyfer dosbarthiadau Masarnen, Afallen, Collen a Helygen; bydd gwaith yn cael ei uwchlwytho i wefan yr ysgol ar gyfer dosbarthiadau Bedwen, Onnen a Celynnen: [Tudalen Cynradd | Ysgol Bro Hyddgen](#)

O **ddydd Mercher 6 Ionawr i ddydd Gwener 15 Ionawr** bydd yr ysgol yn darparu gofal plant i rieni sydd yn Weithwyr Allweddol (fel sy'n cael ei ddifionio gan Lywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/adnabod-plant-gweithwyr-hanfodol-canllawiau>) ac sy'n methu gwneud trefniadau eraill o fewn eu haelwyd estynedig. Noder os, gwelwch yn dda mai ar gyfer gweithwyr sydd ar *shift* neu sydd wedi gweithio *shift* nos yn ystod pythefnos nesaf y mae'r ddarpariaeth yma. Yn enw diogelwch pawb, gofynnir yn garedig i chi barchu'r canllawiau hyn.

Bydd yr ysgol hefyd ar agor i blant sy'n cael eu hadnabod fel plant bregus ac/neu sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Bydd y ffreutur yn darparu bwyd poeth i bawb sy'n bresennol.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe byddech yn cysylltu gyda'r â'r ysgol i roi gwybod a fydd angen darpariaeth gofal plant arnoch chi yn ystod y pythefnos nesaf.

Os ydych yn cael trafferth cael mynediad i'r we ac i TEAMS, gallwch gysylltu gyda'r adran TGCh drwy bostio neges ar y ddesg gymorth TGCh: [Desg Cymorth TGCh | Ysgol Bro Hyddgen](#)

Os oes unrhyw broblem gyda phlant ddim yn deall y gwaith dylid ebostio'r athro i ofyn am gefnogaeth yn syth. Mae'r athrawon yn awyddus iawn i weld eich plentyn yn llwyddo. Mae rhestr e-byst staff ar wefan yr ysgol: [Cysylltwch A Ni | Ysgol Bro Hyddgen](#)

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch am eich cefnogaeth gyson ac i ddymuno blwyddyn newydd well i chi.

Yn gywir

Haf ap Robert

Pennaeth Cynorthwyl

